Hwb Llawfeddygol
Ysbyty Llandochau
Surgical Hub
@Llandough

# Gwybodaeth am ryddhau cleifion ar ôl torri syst/briw/lipoma

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

## Ôl-ofal:

- Gallwch dynnu eich gorchuddion ar ôl 48 awr oni bai eich bod wedi cael cyngor gwahanol.
- Ceisiwch gadw'r ardal yn lân ac yn sych dros yr wythnos nesaf tra bod y clwyf yn gwella.
- Os bydd y llawfeddyg yn penderfynu anfon eich sbesimen i ffwrdd i'w brofi, dylech glywed yn ôl am eich canlyniadau o fewn 6 wythnos – gofynnwch i'ch nyrs a yw hyn yn berthnasol i chi.
    - Os yw sbesimen wedi cael ei anfon ac nad ydych wedi clywed yn ôl o fewn 6 wythnos, cysylltwch ag ysgrifennydd eich meddyg ymgynghorol drwy switsfwrdd yr ysbyty – 02920 747747.

## Cau Clwyfau:

- **Pwythau hydawdd:** bydd y rhain yn hydoddi dros yr wythnosau i fisoedd nesaf.
- **Pwythau anhydawdd:** mae angen tynnu'r rhain yn eich meddygfa o fewn 7-10 diwrnod (oni bai eich bod yn cael cyngor gwahanol).
- **Glud:** Fel arfer, mae hyn yn diflannu mewn 5-10 diwrnod – efallai y bydd yn pilio a disgyn i ffwrdd, mae hyn yn normal.

## Pethau i'w hosgoi:

- Tynnu unrhyw orchudd yn ystod y 48 awr gyntaf.
- Cael bath/nofio/trochi mewn dŵr am bythefnos tra bod y clwyf yn gwella
    - Gallwch gael cawod ar ôl 48 awr, ond peidiwch â gadael gorchudd gwlyb ar y clwyf.
- Defnyddio pethau ymolchi persawrus ar yr ardal – tapiwch yr ardal yn lân â dŵr plaen yn hytrach na'i rhwbio.
- Gor-yfed alcohol am o leiaf 2 wythnos.

## Cysylltwch â'r Hwb Llawfeddygol, eich Meddyg Teulu neu 111 os:

- Byddwch yn cael anawsterau wrth basio wrin neu agor eich coluddion ar ôl eich anesthetig.
- Bydd gennych dymheredd uchel.
- Bydd gennych chwydd neu gochni sylweddol dros/o amgylch eich clwyf.
- Bydd gennych chi redlif o'ch clwyf.

## Cysylltwch â 111 neu ewch i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys os:

- Bydd gennych chi lawer iawn o waedu o'r ardal.

**Rhifau cyswllt allweddol**

Os oes gennych unrhyw bryderon gallwch gysylltu â:
Hwb Llawfeddygol (7am-7pm Dydd Llun-Dydd Gwener) – **02921 826510 neu 02921 826348**
Gofal Brys Llawfeddygol yr Un Diwrnod (sSDEC) yn YAC: drwy'r switsfwrdd – **02920 747747**
**Eich Meddyg Teulu**
**111** ar gyfer gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau neu'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys